STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 289

# POWERS OF ATTORNEY

# WELSH LANGUAGE

## The Enduring Powers of Attorney (Welsh Language Prescribed Form) Regulations 2000

| | |
|---|---|
| *Made - - - - -* | *1st February 2000* |
| *Laid before Parliament* | *9th February 2000* |
| *Coming into force - -* | *1st March 2000* |

The Lord Chancellor, in exercise of the powers conferred upon him by section 2 of the Enduring Powers of Attorney Act 1985(**a**) as extended by section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(**b**), makes the following Regulations:

**1.** These Regulations may be cited as the Enduring Powers of Attorney (Welsh Language Prescribed Form) Regulations 2000 and shall come into force on 1st March 2000.

**2.** The form of words in the Schedule to these Regulations may be used instead of that set out in the Schedule to the Enduring Powers of Attorney (Prescribed Form) Regulations 1990(**c**).

Dated 1st February 2000 *Irvine of Lairg,* C.

(**a**) 1985 c. 29.
(**b**) 1993 c. 26.
(**c**) S.I. 1990/1376.

# SCHEDULE

## ATODLEN

Rheoliadau 2 a 3

## ATWRNEIAETH BARHAUS

**Rhan A: Ynghylch defnyddio'r ffurflen hon**

1. **Cewch ddewis un atwrnai neu fwy nag un.** Os mai un atwrnai a ddewiswch, rhaid i chi ddileu popeth rhwng y bracedi sgwâr ar dudalen gyntaf y ffurflen. Os dewiswch chi fwy nag un, rhaid i chi benderfynu a ydyn nhw'n gallu gweithredu:

- Ar y cyd (hynny yw, rhaid iddyn nhw i gyd weithredu gyda'i gilydd ac ni chânt weithredu ar wahân) neu
- Ar y cyd ac ar wahân (hynny yw, cânt oll weithio gyda'i gilydd ond cânt hefyd weithredu ar wahân os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny).

Ar dudalen gyntaf y ffurflen, nodwch eich penderfynaid chi trwy groesi un o'r dewisiadau allan.

2. **Os rhowch chi bŵer cyffredinol i'ch atwrnai** yng nghyswllt eich holl eiddo a'ch busnes, mae hynny'n golygu y byddan nhw'n gallu delio gyda'ch arian a'ch eiddo ac, o bosib, yn gallu gwerthu eich tŷ.

3. **Os nad ydych chi'n dymuno i'ch atwrnai feddu ar bwerau mor eang,** cewch gynnwys unrhyw gyfyngiadau a fynnwch chi. Er enghraifft, cewch gynnwys cyfyngiad na chaiff ei atwrnai(eiod) weithredu ar eich rhan nes bod ganddyn nhw sail dros gredu eich bod yn feddyliol analluog; neu gyfyngiad ynghylch yr hyn y caiff eich atwrnai(eiod) ei wneud. Rhaid ysgrifennu neu deipio unrhyw gyfyngiadau y dewiswch eu nodi yn y man priodol ar ail dudalen y ffurflen.

4. **Os ydych chi'n ymddiriedolwr** (a chofiwch hefyd bod cyd-berchnogi cartref yn golygu eich bod yn ymddiriedolwr), dylech ofyn am gyngor cyfreithiol os ydych chi'n dymuno i'r atwrnai(eiod) weithredu fel ymddiriedolwr ar eich rhan.

5. **Oni bai eich bod yn cynnwys cyfyngiad i rwystro hynny,** bydd eich atwrnai(eiod) yn gallu defynddio eich arian neu'ch eiddo i wneud darpariaeth y gellid disgwyl i chi eich hun ei gwneud at eu hanghenion eu hunain neu at anghenion pobl eraill. Bydd eich atwrnai(eiod) hefyd yn gallu defnyddio eich arian fel rhoddion, ond dim ond am symiau rhesymol yng nghyswllt gwerth eich arian a'ch eiddo.

6. **Caiff eich atwrnai(eiod) adennill y mân-gostau** o weithredu fel atwrnai(eiod) ar eich rhan. Os yw eich atwrnai(eiod) yn weithwyr proffesiynol, er enghraifft cyfreithwyr neu gyfrifwyr, mae'n bosib y gallan nhw godi am eu gwasanaethau proffesiynol hefyd. Mae'n bosib y byddwch yn dymuno gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth am waith eich atwrnai(eiod) (er, os ydyn nhw'n ymddiriedolwyr, mae'n bosib na fydd ganddyn nhw'r hawl i'w derbyn).

7. **Os yw eich atwrnai(eiod) o'r farn eich bod,** neu eich bod ar fin bod, yn feddyliol analluog i gadw trefn ar eich busnes, bydd yn rhaid i'ch atwrnai(eiod) gyflwyno cais i'r Llys Nodded er mwyn cofrestru ei bŵer.

8. **Cyn cyflwyno cais i'r Llys Nodded ar gyfer cofrestru'r** pŵer hwn, bydd yn rhaid i'ch atwrnai(eiod) roi rhybudd ysgrifenedig o'u bwraid, i chi ac i'ch perthnasau agos, yn ôl diffiniad Deddf Atwrneiaeth Barhaus 1985. Byddwch chi neu'ch perthnasau yn gallu gwrthwynebu os ydych chi, neu os ydyn nhw, yn anghytuno gyda'r cofrestriad hwn.

9. **Mae hwn yn esboniad syml** o'r hyn sydd gan Ddeddf Atwrneiaeth Barhaus 1985 a'r Rheolau a'r Rheoliadau i'w ddweud. Os oes angen rhagor o arweiniad arnoch, bydd gofyn i chi, neu'ch cynghorwyr, edrych ar y Ddeddf ei hun ac ar y Rheolau a'r Rheoliadau. Y Rheolau yw Rheolau y Llys Nodded (Atwrneiaeth Barhaus) 1986 (Offeryn Statudol 1986 Rhif 127). Y Rheoliadau yw Rheoliadau Atwrneiaeth Barhaus (Ffurf Benodedig) 1990 (Offeryn Statudol 1990 Rhif 1376).

10. **Nodyn i'r Atwrnai(eiod)**
**Ar ôl cofrestru'r pŵer,** dylech roi gwybod i'r Llys Nodded os yw'r rhoddwr yn marw neu'n gwella.

11. **Nodyn i'r Rhoddwr**
Mae'n bosib na fydd rhywfaint o'r nodiadau esboniadol yn berthnasol i'r ffurflen y byddwch chi'n ei defnyddio os yw eisoes wedi'i haddasu i gyd-fynd â'ch gofynion penodol chi.

***CEWCH GANSLO'R PŴER HWN UNRHYW BRYD CYN BOD YN RHAID EI GOFRESTRU***

**Rhan B: I'w llenwi gan y rhoddwr (y sawl sy'n penodi'r atwrnai(eiod)).**

**Peidiwch â llofnodi'r ffurflen hon nes eich bod yn deall beth mae hynny'n ei olygu**

| | |
|---|---|
| A fyddech gystal â darllen y nodiadau isod ar ymyl y dudalen sy'n rhan o'r ffurflen ei hun. | |
| Enw a chyfeiriad y Rhoddwr. | Yr wyf fi ______________________<br>o ______________________ |
| Dyddiad geni y Rhoddwr. | a anwyd ar ______________________<br>yn penodi ______________________ |
| Gweler nodyn 1 ar flaen y ffurflen hon. Os mai dim ond un atwrnai yr ydych yn ei benodi, dylech ddileu popeth arall sy'n ymddangos rhwng y bracedi sgwâr trwy'i groesi allan. Os ydych chi'n penodi mwy na dau atwrnai, nodwch yr enw(au) ar y ddalen sydd ynghlwm. | o ______________________<br>● [ac ______________________<br>o ______________________ |
| Dilëwch ba un bynnag sy'n amherthnasol trwy'i groesi allan (gweler nodyn 1 ar flaen y ffurflen hon). | ● ar y cyd<br>● ar y cyd ac ar wahân]<br>i fod yn atwrnai (eiod) at ddibenion Deddf Atwrneiaeth Barhaus 1985<br>● gydag awdurdod cyffredinol i weithredu ar fy rhan |
| Dilëwch ba un bynnag sy'n amherthnasol trwy'i groesi allan (gweler nodyn 2 ar flaen y ffurflen hon). Nodwch unrhyw bwerau ychwanegol. | ● gydag awdurdod i wneud y canlynol ar fy rhan |
| Os nad ydych chi'n dymuno i'r atwrnai(eiod) feddu ar bŵer cyffredinol, rhaid nodi yma fanylion yr awdurdod yr ydych yn ei roi i'r atwrnai(eiod). | |
| Dilëwch ba un bynnag sy'n amherthnasol trwy'i groesi allan. | yng nghyswllt<br>● fy holl eiddo a'm busnes<br>● yr eiddo a'r busnes canlynol: |

**Rhan B: parhad**

| | |
|---|---|
| A fyddech gystal â darllen y nodiadau isod ar ymyl y dudalen sy'n rhan o'r ffurflen ei hun. Os oes yna unrhyw gyfyngiadau neu amodau, nodwch y rheiny yma; os nad oes, croeswch y geiriau hyn allan os ydych chi'n dymuno (gweler nodyn 3 ar flaen y ffurflen hon). | • yn amodol ac y cyfyngiadau a'r amodau isod: |
| Os yw'r ffurflen hon yn cael ei llofnodi yn unol â'ch cyfarwyddiadau chi:—<br>• rhaid i'r sawl sy'n ei llofnodi beidio â bod yn atwrnai nac yn dyst (i Rannau B nac C).<br>• rhaid i chi ychwanegu datganiad sy'n dweud fod y ffurflen hon wedi'i llofnodi ar eich cyfarwyddiadau chi.<br>• rhaid wrth ail dyst (gweler isod). | Fy mwriad yw i'r pŵer hwn barhau hyd yn oed os byddaf, un diwrnod, yn feddyliol analluog.<br><br>Yr wyf wedi darllen, neu darllenodd rywun i mi, nodiadau Rhan A sy'n rhan o'r ffurflen hon, ac yn cynnig esboniad ohoni. |
| Eich llofnod chi (neu farc). | Llofnodwyd gennyf fi fel gweithred __________ a chyflwynwyd |
| Dyddiad.<br>Rhaid i rywun fod yn dyst i'ch llofnod. | ar __________ |
| Llofnod y tyst. | ym mhresenoldeb __________<br>Enw llawn y tyst __________ |
| Ni chaiff eich atwrnai(eiod) fod yn dyst(ion) i chi. Ni chynghorir i'ch gŵr neu'ch gwraig fod yn dyst i chi. | Cyfeiriad y tyst __________ |
| Dim ond os nad ydych chi'n llofnodi'r ffurflen hon yn bersonol, ond eich bod wedi rhoi cyfarwyddiadau i rywun arall ei llofnodi ar eich rhan, (er enghraifft, os yw anabledd corfforol yn eich rhwystro rhag llofnodi) y bydd yn rhaid i chi gael ail dyst. Llofnod yr ail dyst. | ym mhresenoldeb __________<br>Enw llawn y tyst __________<br>Cyfeiriad y tyst __________ |

**Rhan C: I'w llenwi gan yr atwrnai(eiod)**

Nodyn:
1. Gellir addasu'r ffurflen hon i ganiatáu ar gyfer cyflawni gan gorfforaeth.
2. Os oes mwy nag un atwrnai, rhaid rhoi dalennau ychwanegol yn unol â'r ffurf isod, at Ran C.

| | |
|---|---|
| A fyddech gystal â darllen y nodiadau isod ar ymyl y dudalen sy'n rhan o'r ffurflen ei hun. | |
| Peidiwch â llofnodi'r ffurflen hon nes bod y rhoddwr wedi llofnodi Rhan B neu os oedd y Rhoddwr, yn eich barn chi, eisoes yn feddyliol analluog adeg llofnodi Rhan B. | Deallaf fod gennyf ddyletswydd i gyflwyno cais i'r Llys am i'r ffurflen hon gael ei chofrestru o dan Ddeddf Atwrneiaeth Barhaus 1985 pan fo'r rhoddwr ar fin bod yn feddyliol analluog neu eisoes yn y cyflwr hwnnw.<br><br>Deallaf hefyd fod fy mhŵer i ddefnyddio eiddo'r rhoddwr er budd unrhyw un, ar wahân i'r rhoddwr, wedi'i gyfyngu. |
| Os yw'r ffurflen hon yn cael ei llofnodi yn unol â'ch cyfarwyddiadau chi:—<br>● rhaid i'r sawl sy'n ei llofnodi beidio â bod yn atwrnai nac yn dyst (i Rannau B nac C).<br>● rhaid i chi ychwanegu datganiad sy'n dweud fod y ffurflen hon wedi'i llofnodi ar eich cyfarwyddiadau chi.<br>● rhaid wrth ail dyst (gweler isod). | Nid wyf dan oed |
| Llofnod (neu farc) yr atwrnai. | Llofnodwyd gennyf fi fel gweithred __________ a'i chyflwyno |
| Dyddiad. | ar __________ |
| Llofnod y tyst. | ym mhresenoldeb __________<br><br>Enw llawn y tyst __________ |
| Rhaid i'r atwrnai lofnodi'r ffurflen a rhaid cael tyst i'w lofnod. Ni chaiff y rhoddwr fod yn dyst ac ni chaiff un atwrnai fod yn dyst i lofnod y llall. | Cyfeiriad y tyst __________<br>__________<br>__________ |
| Dim ond os nad ydych chi'n llofnodi'r ffurflen hon yn bersonol, ond eich bod wedi rhoi cyfarwyddiadau i rywun arall ei llofnodi ar eich rhan, (er enghraifft, os yw anabledd corfforol yn eich rhwystro rhag llofnodi) y bydd yn rhaid i chi gael ail dyst. Llofnod yr ail dyst. | ym mhresenoldeb __________<br><br>Enw llawn y tyst __________<br><br>Cyfeiriad y tyst __________<br>__________<br>__________ |

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations prescribe a Welsh language form for an enduring power of attorney. It is a translation of the form contained in the Enduring Powers of Attorney (Prescribed Form) Regulations 1990.